**DEDDF DRWYDDEDU 2003**
TRWYDDED ANHEDDAU

Cyngor Sir **Ceredigion** County Council

**ydded anheddau**

**PRM 0551 (03/08/2018)**

**- Manylion am y safle**

| | |
|---|---|
| **Cyfeiriad post y safle, neu os nad oes un, cyfeirnod map ordnans neu ddisgrifiad**<br><br>**THE GUILDHALL**<br>**PENDRE** | |
| **Tref bost**<br>**ABERTEIFI** | **Cod Post**<br>**SA43 1JL** |
| **Rhif ffôn**<br>**01239 615 554** | |

**Os oes cyfyngiad ar yr amser, y dyddiadau**

**NID OES CYFYNGIADAU AMSER AR Y DRWYDDED**

**Gweithgareddau trwyddedadwy a ganiateir gan y drwydded**

**ADLONIANT WEDI EI REOLEIDDIO:**
**CERDDORIAETH FYW – Dan Do**
**CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO – Dan Do**
**UNRHYW BETH SY'N DEBYG I'R HYN SY'N CAEL EI GYNNWYS O FEWN CERDDRIAETH FYW, CERDDORIAETH WEDI EI RECORDIO NEU PERFFORMIADAU DAWNS – Dan Do**

**DARPARU LLUNIAETH POETH YN HWYR YN Y NOS – Dan Do**

**GWERTHU ALCOHOL – Ar ac Oddi Ar y Safle**

**Atodiad 2 – Amodau sy'n gyson â'r Rhestr weithredu**

a. **Cyffredinol - Pob un o'r pedwar amcan trwyddedu:** Mae staff wedi derbyn hyfforddiant ac wedi llofnodi ein polisi gweithredu mewn perthynas â gofynion Deddf Trwyddedu 2003 ac yn arbennig y rhaglen weithredu hon. Mae Cyfarwyddwr wedi cwblhau cwrs Deiliaid Trwydded Bersonol BIIAB yn ddiweddar, a'r bwriad yw bod aelodau pellach o'r staff hefyd yn cwblhau'r cwrs.

b. **Atal Troseddau ac Anhrefn:** Ni fyddwn yn gwerthu alcohol i unrhyw un sy'n feddw neu'n ymddangos yn feddw, sy'n dreisgar, yn gwerylgar neu'n afreolus. Gofynnir i unrhyw un sy'n ymddangos felly i adael, a hysbysir yr Heddlu os oes angen. Mae'r prif adeilad wedi'i ailwampio'n ddiweddar ac mae wedi'i ddiogelu gyda chloeon safonol a system larwm. Mae adeilad y farchnad wedi'i ddiogelu gyda system larwm ar wahân. Mae'r cwrt a'r ardaloedd o amgylch y fynedfa i'r adeilad yn cael eu monitro gan CCTV.

c. **Diogelwch Cyhoeddus:** Mae yswiriant atebolrwydd cyhoeddus mewn grym. Byddwn yn rhoi gwybod i'n hyswirwyr am y rhaglen weithredu hon a'r newidiadau diweddar i'r drwydded. Mae pecynnau cymorth cyntaf wedi'u lleoli yn y gegin, y swyddfa, ac adeiladau'r farchnad, ac mae'r staff yn gwybod ble maen nhw. Mae rhai o'r staff wedi derbyn hyfforddiant cymorth cyntaf. Offer tân - nodir lleoliad yr offer ar y cynllun. **<u>Bocsio a Reslo</u>** - Ni fyddem fel arfer yn trefnu digwyddiadau o'r fath, ond pe bai clybiau lleol yn trefnu sioeau neu giniawau bocsio neu reslo preifat, byddem yn gosod ymrwymiad ar y llogwyr i gydymffurfio â'r rheoliadau ynghylch darpariaeth feddygol, codi cylchoedd, rheoli'r drysau, a chydymffurfio â rheolau Bwrdd Rheoli Prydain a/neu Gymdeithas Reslo Prydain.

d. **Atal Niwsans Cyhoeddus:** Ni fydd y safle ar agor am oriau gormodol. Cadwn yr hawl i wrthod neu derfynu trefniadau bwcio mewn sefyllfaoedd o'r fath. Bydd unrhyw sŵn yn cael ei fonitro, a chedwir drysau a ffenestri ar gau yn ystod perfformiadau byw a pherfformiadau wedi'u recordio os oes angen, oni bai eu bod tu allan, pan fydd pob cerddoriaeth fyw a cherddoriaeth wedi'i recordio'n dod i ben am 2300. Dim adloniant wedi'i reoleiddio y tu allan ar ôl 2300.

e. **Amddiffyn Plant Rhag Niwed:** Ni fyddwn yn gweini alcohol i unrhyw sydd dan 18 oed neu sy'n edrych dan 18 oed. Mae'r staff wedi cael cyfarwyddyd i ofyn am ddogfen adnabod (gyda llun e.e. pasbort, trwydded yrru) oddi wrth unrhyw un sy'n edrych dan 21 oed. Ni fydd plant dan 18 oed yn cael mynychu adloniant i oedolion.

